Gwiath teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch: Gam ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Cyfeiriad awgrymedig

Preece C a Humphreys C. Gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch: Gam ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: Caerdydd. 2023

Awduron

Cerys Preece, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus a Dr Ciarán Humphreys, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus.

Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a gymerodd ran yn ystod y cyfnod ymgysylltu a'r panel arbenigol Gwaith Teg ar gyfer iechyd, llesiant a chydraddoldeb.

© 2023, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ceir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant argraffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

ISBN: 978-1-83766-250-0

Yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd
Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Lles
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF4 10BZ

E-bost: PHW.Determinants@wales.nhs.uk
Icc.gig.cymru/gwaithteg

Cynnwys

1. Cefndir 4
2. Y cam ymgysylltu 7
2.2. Nodau ac Amcanion 7
3. Canfyddiadau 9
3.1 Gwerthuso effaith 9
3.2 Adolygu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol 9
3.2.1 Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 12
3.2.2 Rhanbarth Gogledd Cymru 13
3.2.3 Rhanbarth Canolbarth Cymru 14
3.2.4 Rhanbarth y De-orllewin 15
3.3 Gwybodaeth o safbwyntiau cenedlaethol 16
3.4 Gwybodaeth gan Dimau Iechyd Cyhoeddus Lleol 19
4. Trafodaeth 23
4.1 Effaith a chyrhaeddiad Canllaw gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch Iechyd Cyhoeddus Cymru 23
4.2 Adolygu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol 25
4.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid 26
4.4 Edrych o Safbwynt Gwyddor Ymddygiadol 27
5. Casgliad 28
Atodiadau 31

1. Cefndir

Mae gwaith ac amodau gwaith yn benderfynyddion allweddol iechyd, llesiant a thegwch iechyd, ac mae gweithlu iach ac ymgysylltiedig yn cyfrannu at gynhyrchedd busnes a ffyniant cymdeithasol.

Wrth ymateb i'r pandemig Coronafeirws SARS-CoV-2 (COVID-19), cynhyrchodd yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd (WDoHU) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) gyfres o adroddiadau yn archwilio newidiadau i gyflogaeth yng Nghymru a beth y gellid ei wneud i wella iechyd a thegwch iechyd. Effeithiwyd ar rai grwpiau yn arbennig, fel pobl ifanc, pobl hŷn, pobl o gefndiroedd difreintiedig, menywod, yn enwedig mamau, a grwpiau ethnig leiafrifol. Roedd y pandemig wedi gwaethygu annhegwch a oedd eisoes yn bodoli o ran cyfranogi mewn gwaith teg ac iechyd, ar yr un pryd â chyflwyno ei heriau ei hun. Mae sicrhau bod gan y rhai sy'n profi anfantais fynediad at waith teg yn parhau i fod yn ffordd hanfodol o wella iechyd a llesiant tymor hir unigolion ac aelwydydd, gan gynnwys plant. Mae ymchwil yn dangos bod un o bob pedwar o weithwyr yng Nghymru yn profi lefelau cymedrol i uchel o waith ansicr sy'n gysylltiedig â gwaith annheg.[1]

Mae cymryd rhan mewn gwaith teg yn rhoi ymdeimlad o bwrpas ac yn golygu bod gan bobl arian ac adnoddau ar gyfer bywyd iach iddyn nhw a'u teuluoedd. Mae hyn yn lleihau straen seicolegol, yn creu llwybr allan o dlodi ac yn helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Gall gwaith teg gyfrannu at economi lesiant, gan wella canlyniadau i'r boblogaeth gyfan, gan gynnwys y rhai mwyaf difreintiedig[2].

Ym mis Medi 2021, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) banel arbenigol i archwilio'r dystiolaeth a chynhyrchu argymhellion ar gyfer asiantaethau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch, ac i gynghori ar gyfleu'r argymhellion hyn. Cafodd y panel arbenigol dystiolaeth gan PHW ac arbenigwyr pwnc, amlygodd dystiolaeth ychwanegol, a defnyddiodd arbenigedd yr aelodau eu hunain i ffurfio themâu, cyfleoedd ac argymhellion drafft.

Lansiwyd cyfres o gynhyrchion ym mis Mai 2022 a oedd yn cynnwys canllaw, ffeithluniau, animeiddiadau ac astudiaethau achos.

"Mae gwaith teg yn golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, bod ganddynt lais a chynrychiolaeth, eu bod yn ddiogel a'u bod yn gallu gwneud cynnydd mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu"



Ffigur 1: "Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan annatod o bob un o'r chwe nodwedd".[3]

Datblygwyd y canllaw[2] yn bennaf ar gyfer penderfynwyr mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd a threfniadau partneriaeth a chydweithio ar lefel ranbarthol a lleol (fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, byrddau sy'n gyfrifol am Fargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol). Amlygodd y gwaith chwe maes ar gyfer gweithredu a fydd yn galluogi asiantaethau lleol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg er mwyn datblygu iechyd, llesiant a thegwch.

Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi gweithgarwch, canfyddiadau a gwerthusiad cam ymgysylltu WDoHU ynglŷn â gwaith teg ers cyhoeddi adnoddau'r panel arbenigol.

Ffigur 2: Meysydd ar gyfer Gweithredu[2]

2. Y cam ymgysylltu

2.2. Nodau ac Amcanion

Diben y cam ymgysylltu oedd:
Ysbrydoli a dylanwadu ar asiantaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg trwy eu cynorthwyo i:

- wneud y cysylltiad rhwng gwaith teg ac iechyd, llesiant a thegwch
- deall pa gamau y gallant eu cymryd
- ystyried sut maen nhw'n mesur eu dylanwad ar gyfranogiad mewn gwaith teg

2. Dylanwadu ar waith yr uned (ac Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn y dyfodol ynglŷn â gwaith teg fel penderfynydd iechyd, gan gynnwys cyfleoedd posibl i gydweithio, trwy:
    - ddeall blaenoriaethau, dyheadau a gwerthoedd
    - deall dulliau gweithredu rhanddeiliaid wrth fynd i'r afael â gwaith teg
    - deall heriau posibl
    - amlygu'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol
    - amlygu anghenion canfyddedig presennol o ran mynd i'r afael â gwaith teg fel llwybr tuag at lesiant

Gwnaethom amlygu a mapio rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2022 ac ymgynghori â'r Panel Arbenigol Gwaith Teg ar randdeiliaid allweddol ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu. Amlygwyd rhanddeiliaid blaenoriaethol gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Llawer o ddiddordeb a dylanwad mewn perthynas â gwaith teg ac iechyd a llesiant y boblogaeth.
- Lefel uwch gyda gwybodaeth am lunio polisïau ar lefel genedlaethol/ranbarthol neu leol.
- Y gallu i gael mynediad at rwydweithiau sy'n berthnasol i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch, a dylanwadu arnynt.

Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, amlygwyd 12 grŵp rhanddeiliaid a chawsant eu eu categoreiddio yn ôl lefel blaenoriaeth (tabl 1). Cymerodd 10 o'r grwpiau rhanddeiliaid hyn ran yn y cam ymgysylltu. Ni lwyddwyd i ymgysylltu â'r Ffederasiwn Busnesau Bach a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain yn ystod y cyfnod, ond roedd rhywfaint o ymgysylltiad gan Fusnes yn y Gymuned.

Lefel 1	Cymru Iach ar Waith Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Grŵp Creu Cymru Iachach Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus Grŵp Cydlynwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Arweinwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y GIG
Lefel 2	Llywodraeth Cymru Tîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Lefel 3	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Ffederasiwn Busnesau Bach Cyngor Undebau Llafur Cymru

Tabl 1: Rhanddeiliaid blaenoriaethol ar gyfer y cam ymgysylltu ynglŷn â gwaith teg.

Datblygwyd cynllun cyfathrebu ochr yn ochr â'r cynllun ymgysylltu er mwyn:

- Cynnal a chynyddu ymwybyddiaeth o gynhyrchion gwaith teg ymhlith rhanddeiliaid blaenoriaethol.
- Lledaenu cynhyrchion wedi'u diweddaru a gwybodaeth o ddiddordeb i randdeiliaid blaenoriaethol.
- Defnyddio ymagwedd wedi'i llywio gan ymddygiad wrth ymgysylltu i gynyddu ymwybyddiaeth o ddeunyddiau gwaith teg a mynediad atynt.

Amlinellodd y cynllun ymgysylltu y metrigau gwerthuso a'r data a gasglwyd ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu (manylion llawn yn atodiad 1).

Datblygwyd model rhesymeg i ddangos sut y bydd gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y cam ymgysylltu'n arwain at ganlyniadau tymor byr, canolig a hir.

3. Canfyddiadau

3.1 Gwerthuso effaith

Casglwyd data gwerthuso o ran y pedwar maes allweddol, a grynhoir isod

1. Gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu
- 1780 o ymweliadau â'r dudalen we
- gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol: 18,000 o argraffiadau (Facebook), 9,800 (Twitter) a 2,100 (Linkedin)
- sylw yn y wasg ar gyfer yr wythnos cyflog byw gwirioneddol: 734 o olygon

2. Gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid
- cyflwyniadau a gweithdai i fwy na 100 o randdeiliaid blaenoriaethol
- cynnal cyfarfodydd unigol â rhanddeiliaid blaenoriaethol

3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael gwybodaeth
- gwybodaeth wedi'i chasglu gan 10 o randdeiliaid blaenoriaethol
- gweithdai wedi cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth a chymhelliad rhanddeiliaid

4. Ymddygiadau rhanddeiliaid blaenoriaethol bod gwaith teg yn cael ei grybwyll yn benodol mewn polisïau a chynlluniau
- Adolygu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Tabl 2: Trosolwg o ddata gwerthuso ar gyfer y cam ymgysylltu

Casglwyd gwybodaeth i ganfod pa mor hyderus oedd Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn â beth sy'n gweithio i wella cyfranogiad mewn gwaith teg. Dangosodd y canlyniadau lefelau is o wybodaeth a dealltwriaeth, ond roedd adborth ar ôl y sesiynau'n gadarnhaol o ran gwelliant mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Dangosodd y data a gasglwyd mewn gweithdy gyda staff Cymru Iach ar Waith fod eu hyder a'u cymhelliad i drafod gwaith teg gyda chyflogwyr yn uwch ar ôl y gweithdy.

3.2 Adolygu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o bolisïau a chynlluniau rhanbarthol a lleol allweddol o ran y diffiniad o waith teg a'i chwe nodwedd. Cynhaliwyd adolygiad

bwrdd gwaith o gynlluniau Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, cynlluniau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac Asesiadau a Chynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyhoeddodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hasesiadau llesiant yn ystod 2022, ac maen nhw wrthi'n cwblhau eu Cynlluniau Llesiant yn derfynol erbyn mis Mai 2023. Mae tabl 3 yn crynhoi cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfeirio at waith teg a/neu nodweddion gwaith teg.

	Gwaith Teg	Gwobrwyo Teg	Llais y cyflogai	Sicrwydd a hyblygrwydd	Cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen	Amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol	Parchu hawliau cyfreithiol
Cwm Taf							
Caerdydd		√			√		
Caerfyrddin	√	√			√		
Ceredigion	√				√	√	
Conwy a Sir Ddinbych		√			√		
Sir y Fflint a Wrecsam					√	√	
Gwent		√			√		
Gwynedd ac Ynys Môn	√				√		
Castell-nedd Port Talbot					√		
Sir Benfro					√		
Powys				√	√		
Abertawe							
Y Fro					√		

Tabl 3: Crynodeb o gynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfeirio at waith teg a nodweddion gwaith teg

3.2.1 Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys 10 ardal awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru (Caerdydd; y Fro; Merthyr Tudful; Rhondda Cynon Taf; Pen-y-bont ar Ogwr; Torfaen; Caerffili; Casnewydd; Sir Fynwy; Blaenau Gwent). Bu cryn fuddsoddiad ac adfywio ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ystod y degawdau diwethaf. Bydd y Fargen Ddinesig yn gweld buddsoddiad o fwy na £1.23 biliwn a chaiff ei ddylunio i adeiladu ar gryfderau sector y rhanbarth, ei sylfaen sgiliau uchel ac i gyflymu twf economaidd a chynhyrchedd.

Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru yn ymrwymo i fuddsoddi cyfrifol, cefnogi cynaliadwyedd, gwaith teg, y Cyflog Byw Gwirioneddol ac ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r fframwaith yn annog cynaliadwyedd cadwyn gyflenwi, gwydnwch busnes a phersonol ac yn hyrwyddo gwaith teg, ffyrdd digidol a hyblyg o weithio, datblygu seilwaith, sgiliau a chyflogadwyedd a digideiddio.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dadansoddi heriau economaidd a meysydd twf tebygol i amlygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol yn y gweithlu. Nid yw Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (2023- 2025) yn sôn yn benodol am waith teg, ond mae'n canolbwyntio ar rai o nodweddion gwaith teg fel cryfhau'r cynnig mewn addysg bellach, prentisiaethau, cymwysterau, cynorthwyo'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i gael gwaith a chamu ymlaen yn y gwaith.

Mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn gwasanaethu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Caerdydd; y Fro; Cwm Taf Morgannwg a Gwent. Nid yw BGC Caerdydd yn sôn yn benodol am waith teg yn ei gynllun, ond mae ganddo amcanion sy'n gysylltiedig â dwy o'r nodweddion gwaith teg, sef gwobrwyo teg (gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat) a chyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (o ran hyfforddiant a chyflogaeth leol).

Mae gan BGC y Fro amcan sy'n gysylltiedig â'r nodwedd gwaith teg cyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (cyfleoedd cyflogadwyedd a hyfforddiant i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd amddifadedd).

Mae BGC Gwent yn un newydd ei ffurfio sy'n gyfuniad o bum ardal awdurdod lleol a oedd ar wahân yn flaenorol, sef Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent a Chaerffili. Un o amcanion BGC Gwent yw creu Gwent deg a chyfiawn, a bydd yn cyflawni hynny trwy gefnogi'r broses o greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ystyrlon sy'n galluogi pawb i gael cyflog teg am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Mae'r camau gweithredu hyn yn ymwneud â dwy o'r nodweddion gwaith teg, sef gwobrwyo teg a chyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen.

Mae BGC Cwm Taf Morgannwg yn gyfuniad o BGC Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a BGC Pen-y-bont ar Ogwr. Ni chyfeirir yn benodol at waith teg, ond mae'r amcan 'cymdogaeth leol iach' yn trafod rôl sefydliadau angori a cheisio gwella llesiant trwy eu hasedau i gefnogi cymunedau trwy gaffael a lleihau eu hôl troed carbon.

3.2.2 Rhanbarth Gogledd Cymru

Mae partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnwys y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych). Mae'n ceisio datblygu'r rhanbarth i fod yn hyderus ac yn gydlynol, gan wella ei lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gyfrifol am y Fargen Ddinesig a bydd yn goruchwylio buddsoddiad o £240 miliwn.

Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru yn datgan yr uchelgeisiau canlynol mewn perthynas â gwaith teg:

- Sgiliau – Datblygu ein dealltwriaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol, gan sicrhau'r sgiliau iawn ar gyfer gweithlu'r dyfodol sy'n darparu cyfleoedd i bawb a chyflog byw.
- Cysylltedd digidol – Sicrhau bod gan bob rhan o'r rhanbarth y cysylltedd digidol sy'n ofynnol i weithio mewn byd rhithwir er mwyn caniatáu mynediad cydradd at swyddi.
- Cynyddu cyfleoedd gweithio rhithwir i'r eithaf er mwyn caniatáu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Creu mynediad at waith heb fod angen teithio ac felly darparu llwyfan ar gyfer cyfleoedd digidol arloesol.
- Sicrhau cynnig twristiaeth ar hyd y flwyddyn lle y bo'n briodol, i greu cyfleoedd mwy cynaliadwy ar gyfer y gweithlu.
- Anelu at y lefelau cynaliadwyedd uchaf a sicrhau bod gwaith teg yng Nghymru yn cael ei wobrwyo, ei glywed, a'i gynrychioli.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio i amlygu anghenion sgiliau rhanbarthol presennol ac yn y dyfodol. Mae'r cynllun (2023-2025) yn amlinellu tri maes blaenoriaeth; galluogi a grymuso cyflogwyr; galluogi a grymuso unigolion a sut mae cymorth yn cael ei ddarparu; a gwneud y cysylltiadau. Mae'n ymrwymo i hyrwyddo arferion gwaith teg a datblygu addewid ar gyfer gwaith a chyflog teg yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae tri BGC yn gwasanaethu rhanbarth Gogledd Cymru. Mae gan Gonwy a Sir Ddinbych amcanion sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwaith teg cyfle i gael

mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (creu gweithlu medrus); gwobrwyo teg (mwy o bobl mewn gwaith sy'n talu'n dda).

Mae amcanion Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnwys camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â chyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (gwirfoddoli a datblygu llwybrau gyrfa a gwella ei ymagwedd gydgysylltiedig at hyfforddi a recriwtio siaradwyr Cymraeg) ac amgylchedd diogel, iach a chynhwysol (amlygu lle y gall sefydliadau newid systemau fel bod arferion recriwtio'n galluogi gweithleoedd amrywiol a ffyniannus).

Mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn sôn yn benodol am yr argymhellion gwaith teg yng nghanllaw Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef "byddwn yn ymrwymo i ddatblygu ffordd o feddwl sy'n canolbwyntio ar waith teg, gosod gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a rhoi esiampl o waith teg yn Ynys Môn a Gwynedd sy'n dangos gwerth ymagwedd o'r fath i fusnes a'r gymuned a hyrwyddo mynediad at waith teg i bawb". Mae amcanion eraill yn cynnwys nodweddion gwaith teg cyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (o ran cyflogaeth, addysg bellach, neu hyfforddiant).

3.2.3 Rhanbarth Canolbarth Cymru

Mae Ceredigion yn rhan o bartneriaeth ranbarthol Tyfu Canolbarth Cymru gyda Phowys. Nod y bartneriaeth yw cynrychioli buddiannau'r rhanbarth a'i flaenoriaethau ar gyfer gwelliannau yn yr economi leol, a'i gweledigaeth yw y bydd Canolbarth Cymru yn "Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd wedi'i sbarduno gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog". Bydd y bartneriaeth ranbarthol yn goruchwylio Bargen Dwf Canolbarth Cymru gyda buddsoddiad o £110 miliwn yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf.

Datblygwyd Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru trwy gydweithio a chydgynhyrchu â rhanddeiliaid ledled y rhanbarth. Mae'n cefnogi model datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth, a'i weledigaeth ar gyfer y rhanbarth yw "Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n cyflawni twf economaidd wedi'i sbarduno gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog". Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru wedi amlinellu'r uchelgeisiau canlynol mewn perthynas â gwaith teg:

- Byddwn yn gweithio tuag at sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio rhag cymryd rhan yn ein heconomi trwy ddiffyg cysylltedd digidol.
- Bydd sicrhau cyflenwad priodol o sgiliau a gweithlu galluog i fodloni gofynion busnes a diwydiant yn allweddol i'n llwyddiant yn y dyfodol.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn ymgysylltu ac ymgynghori â sectorau a diwydiannau i amlygu anghenion cyflogwyr a dysgwyr. Nid yw'r cynllun (2022–2025) yn sôn yn benodol am waith teg, ond mae'n cynnwys amcanion yn ymwneud â llwybrau dysgu a chynnydd dysgwyr mewn Addysg Bellach/Addysg Uwch; sefydlu cynllun prentisiaethau a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyfleoedd ar gyfer uwchsgilio.

Mae gan Ranbarth Canolbarth Cymru ddau BGC, sef Ceredigion a Phowys. Mae Ceredigion yn ymrwymo i'r argymhellion gwaith teg yng nghanllaw Iechyd Cyhoeddus Cymru: "bydd holl sefydliadau'r BGC yn ymrwymo i ddatblygu ffordd o feddwl sy'n canolbwyntio ar waith teg, gosod gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a rhoi esiampl o waith teg yng Ngheredigion sy'n dangos gwerth ymagwedd o'r fath i fusnes a'r gymuned a hyrwyddo mynediad at waith teg i bawb".

Mae gan BGC Powys amcanion sy'n gysylltiedig â nodweddion gwaith teg cyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (ennill sgiliau newydd; gwella'r ymagwedd at ddysgu gydol oes, cynllun hyfforddeion a phrentisiaeth) a diogelwch a hyblygrwydd (cysylltedd digidol a chydbwysedd bywyd a gwaith).

3.2.4 Rhanbarth y De-orllewin

Mae Rhanbarth y De-orllewin yn rhychwantu Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro ac mae'n cynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe a fydd yn gweld buddsoddiad o hyd at £1.3 biliwn mewn naw rhaglen fawr ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Nod y Fargen Ddinesig yw gwella bywydau pobl trwy godi dyheadau, gwella gwasanaethau, hybu sgiliau, a chreu cyfleoedd cyflogaeth sy'n talu'n dda.

Mae gan y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru weledigaeth ar gyfer rhanbarth sydd: "yn fentrus ac yn uchelgeisiol; yn gytbwys ac yn gynhwysol; yn gydnerth ac yn gynaliadwy". Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru wedi amlinellu'r uchelgeisiau canlynol sy'n ymwneud â gwaith teg:

- Ymrwymo i fuddsoddi cyfrifol, cefnogi cynaliadwyedd, gwaith teg, y Cyflog Byw Gwirioneddol ac ymgorffori llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- Gall pwyslais ar glystyrau gwerth uchel a chefnogi gwaith teg a chyflogadwyedd fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn ceisio gweithio ar draws y rhanbarth gan bontio'r bwlch rhwng addysg ac adfywio yn y gobaith o greu economi gref a bywiog wedi'i seilio ar arloesedd, twf a gweithlu galluog. Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2023-2025 yn amlygu'r angen am waith teg i bawb ac

yn symud ymlaen â chamau gweithredu sy'n ei hyrwyddo, er enghraifft wrth fynd i'r afael â bylchau sgiliau a denu cyflogeion i'r ardal.

Mae gan Ranbarth y De-orllewin bedwar BGC. Amcan trosfwaol BGC Sir Gaerfyrddin yw "[sicrhau] economi gynaliadwy a chyflogaeth deg". Mae camau gweithredu'n cynnwys rhoi arferion gwaith teg ar waith trwy gyflogaeth a gwasanaethau; ystyried cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus; archwilio datblygu rhaglen dysgu seiliedig ar waith/prentisiaeth.

Mae gan BGC Sir Benfro amcanion sy'n gysylltiedig â'r nodwedd gwaith teg cyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (gallai datblygu mentrau sy'n cefnogi pobl sydd mewn tlodi ddileu rhai o'r rhwystrau rhag gwaith; hyrwyddo gwirfoddoli a mentrau cymdeithasol a fydd yn darparu swyddi lleol).

Mae BGC Castell-nedd Port Talbot yn cyfeirio at y nodwedd gwaith teg cyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen (cynyddu sgiliau a hyfforddeiaethau), tra bod BGC Abertawe yn canolbwyntio ar amcanion sy'n gysylltiedig â thyfu'r economi (economi sy'n gynaliadwy ac yn adfywiol; integreiddio ein gwaith economaidd ag ystyriaethau yn ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd i gyflawni canlyniadau ehangach a sut rydym yn cynllunio ein dyfodol economaidd).

3.3 Gwybodaeth o safbwyntiau cenedlaethol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r sbardunwyr polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith teg a throsolwg o'r wybodaeth a gafwyd gan y rhanddeiliaid blaenoriaethol sy'n gweithio ar lefel genedlaethol.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r ymrwymiad uchelgeisiol rhwng 2021 a 2026. Mae'r diagram isod yn dangos rhywfaint o'r cyd-destun polisi ac economaidd sy'n amlygu rhai o'r meysydd polisi yn ymwneud â'r amcanion llesiant "creu economi wedi'i seilio ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol" [4]



Cymerwyd Ffigur 3 o (Gynllyn Sgilliau a Chyflogaeth Goglgedd Cymru)

Ym mis Mawrth 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun 'Cymru gryfach, decach, gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau'[5] sy'n cynnwys gweledigaeth i greu Cymru "lle gall unigolion o bob oedran gael addysg o safon uchel, gyda swyddi i bawb, lle gall busnesau ffynnu mewn economi sero net sy'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb".' Mae'r cynllun yn amlinellu meysydd blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys "Gwaith teg i bawb. Cefnogi ac annog cyflogwyr i greu cyflogaeth o safon uchel, gwella'r cynnig i weithwyr, hyrwyddo arferion cyflogaeth teg, sicrhau gwerth cymdeithasol buddsoddiad ac annog y sector cyhoeddus i ymgorffori'r blaenoriaethau wrth gynllunio'r gweithlu".

Mae Llywodraeth Cymru wedi symud ymlaen â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)[6]. Nod y Bil yw gwella gwasanaethau cyhoeddus trwy "weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol"[7]. Pasiwyd y Bil ym mis Mai 2023 ac mae'n gosod dyletswydd statudol i:

- Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.
- Gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol statudol ar gyrff cyhoeddus penodol sy'n mynnu eu bod yn ceisio consensws neu gyfaddawd ag undebau llafur cydnabyddedig wrth bennu a chyflawni amcanion llesiant.
- Creu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol statudol ar gyfer Gweinidogion Cymru i ymgynghori trwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni amcanion llesiant.
- Diwygio'r nod Cymru Lewyrchus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i ddisodli gwaith addas â gwaith teg.
- Mynnu bod cyrff cyhoeddus penodol yn ystyried caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wrth gynnal caffael cyhoeddus; pennu amcanion caffael o ran nodau llesiant; a chyhoeddi strategaethau caffael.

- Mynnu bod rhai cyrff cyhoeddus yn cyflawni dyletswyddau rheoli contract i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio trwy gadwyni cyflenwi.
- Gosod dyletswyddau adrodd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus penodol mewn perthynas â'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru (y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg) yn datblygu canllawiau statudol cysylltiedig i gefnogi'r Bil a fydd yn cynnwys cyfeiriad at ganllaw gwaith teg Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn hyrwyddo a chynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg trwy gefnogi datblygiad Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a'r Fforwm Manwerthu mewn ymagwedd partneriaeth gymdeithasol, gan geisio gwella amodau gwaith a datblygu sector cynaliadwy, cydnerth sy'n cynnig gwaith teg, diogel a gwerth chweil.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu gwaith teg yn y Contract Economaidd. Mae'r contract yn ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar yr un pryd â chreu economi fwy gwydn a ffyniannus, a ddisgrifir fel ymagwedd 'rhywbeth am rywbeth'. Mae tîm Busnes Cymru yn Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â WDoHU i gydweithio ar ddatblygu a hybu amlygrwydd gwaith teg wrth ddatblygu ei wefan yn barhaus.

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi cyngor i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant[8], gan nodi bod cysylltiad clir wedi'i wneud o ran twf rhanbarthol a bargeinion dinesig mewn meysydd fel ynni a'r economi. Roedd angen rhoi ystyriaeth bellach i ddyfodol gwaith a pha sgiliau a allai fod yn angenrheidiol gyda chysylltiadau mwy eglur â'u Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol unigol.

Mae tîm Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi bod yn ymwneud â chynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 mewn meysydd fel caffael, gan astudio effaith incwm sylfaenol a'r wythnos waith fyrrach, a chefnogi datblygiad Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)[6]. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar, sef Derek Walker, a disgwylir iddo gyhoeddi ei flaenoriaethau ar gyfer ei dymor saith mlynedd yn yr hydref, a allai gynnwys gwaith teg.

Mae llawer o weithgareddau Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru) wedi cael eu dominyddu gan y gweithredu diwydiannol diweddar a pharhaus. Ym mis Rhagfyr 2022, ceisiodd rhaglen beilot newydd yn rhan o'r cwricwlwm newydd

mewn ysgolion helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer gyrfa, a deall eu hawliau yn y gwaith, amgylcheddau gwaith iach a rôl yr undebau. Mae gwaith yn parhau hefyd i gefnogi datblygiad polisïau a chynlluniau, hyfforddi swyddogion undebau a chefnogi Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Maen nhw'n cydnabod bod rhai'n parhau i ganolbwyntio'n gryf ar dwf economaidd a datblygu mewn rhai sectorau, sy'n arwain at lai o awydd i groesawu'r syniad o waith teg.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) yn datblygu ei Strategaeth Tymor Hir (2023 – 2035) sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer cyflawni dyfodol iachach i Gymru erbyn 2035. Un o'r chwe blaenoriaeth strategol yw 'dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd', gan gynnwys "erbyn 2035, byddwn wedi cefnogi gwaith sector cyhoeddus a phreifat i gynyddu cyfranogiad cynhwysol mewn gwaith teg i'r eithaf gan gefnogi iechyd a llesiant". Yn ôl Cynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023-2026), erbyn 2026 "bydd [Iechyd Cyhoeddus Cymru] wedi gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gael dylanwad cadarnhaol ar sut gall gwaith, addysg a thai wella iechyd a thegwch".

Yn ogystal â gwaith WDoHU ar waith teg, bydd y Rhaglen Cymru Iach ar Waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gefnogi cyflogwyr i gynyddu cyfraniad gwaith at wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau i'r eithaf. Wrth fwrw ymlaen i weithredu'r model cyflawni newydd, bydd Cymru Iach ar Waith yn parhau i gefnogi cyflogwyr i greu gwaith sy'n ddiogel ac sy'n optimeiddio iechyd a llesiant, gan gydnabod y newidiadau cyflym i fyd gwaith ers y pandemig.

Bydd gwaith teg yn cael ei ymgorffori yn y model cyflawni a'r model asesu newydd, a bydd gwybodaeth bynciol ac adnoddau ar gael i gyflogwyr ar dudalennau gwe Cymru Iach ar Waith. Mae'r rhaglen hefyd yn gweithio ar weithgarwch i gynorthwyo pobl i aros mewn gwaith trwy sefydlu Partneriaeth Rheoli Iechyd Cyflogeion, sy'n dod â phartneriaid amlasiantaethol ynghyd i fynd i'r afael â materion penodol ac atal pobl rhag syrthio allan o waith.

3.4 Gwybodaeth gan Dimau Iechyd Cyhoeddus Lleol

Er mwyn cael gwybodaeth i lywio amcanion y cynllun ymgysylltu, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd, gweithdai a thrafodaethau gyda'r 7 tîm iechyd cyhoeddus lleol yng Nghymru. Roedd timau iechyd cyhoeddus lleol yn rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru gynt ac fe'u hintegreiddiwyd i Fyrddau Iechyd ym mis Medi 2022. Maen nhw'n chwarae rôl allweddol mewn gwella iechyd a lles eu cymunedau lleol. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r trafodaethau hyn.

Pa ymyriadau polisi sydd eisoes yn digwydd ar lefel leol a rhanbarthol? Beth yw'r meysydd gweithredu presennol ar gyfer asiantaethau lleol a rhanbarthol, gan gynnwys cyfleoedd posibl a chanfyddedig?

Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) yn gweithio tuag at ddod yn rhanbarth Marmot sefydledig gyda chymorth gan y Sefydliad Tegwch Iechyd. Roedd gwaith teg yn gysylltiedig ag un o 8 egwyddor Rhanbarth Marmot (creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb) gyda'r prif amcan yn ymwneud â lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r tîm wedi bod yn ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu a chydweithio i ymgorffori egwyddorion Marmot yng nghynllun llesiant ei BGC a chynlluniau corfforaethol yr awdurdod lleol. Mae amcanion allweddol eraill ar gyfer y tîm yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd a chydlyniant cymdeithasol. Canolbwyntiodd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus[9] ar ranbarth Marmot gyda phennod ar waith teg, a lywiwyd gan ganllaw Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Amlygwyd nifer o feysydd arfer da a chyfleoedd i ddatblygu gwaith teg gan dîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB) mewn perthynas â gweithgareddau BCUHB, e.e. ei rôl fel sefydliad angori, datblygu'r strategaeth iechyd a llesiant staff, y rhaglen Mannau Iach a chysylltiadau â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd bod hybiau cyfathrebu lleol yn chwarae rôl bwysig wrth gynorthwyo pobl yn ôl i waith.

Amlygodd tîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (C&VUHB) nifer o feysydd arfer da a chyfleoedd i ddatblygu gwaith teg, e.e. arferion a pholisïau'r Bwrdd Iechyd (e.e. prentisiaethau a diwygio ei strategaeth 10 mlynedd) a strategaeth cyfrifoldeb cymdeithasol a chaffael Cyngor Caerdydd; gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar werth cymdeithasol. Mae Caerdydd wedi gwneud cynnydd sylweddol â'i huchelgais i ddod yn Ddinas Cyflog Byw. Sefydlwyd grŵp llywio i sbarduno nifer y cyflogwyr cyflog byw achrededig, cynyddu nifer y bobl sy'n gweithio i gyflogwyr cyflog byw a chefnogi busnesau bach i gael eu hachredu trwy gynllun cefnogi achrediad cyflog byw y cyngor.

Mae tîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) wedi cwblhau ei Statws Platinwm yn ddiweddar gyda Chymru Iach ar Waith. Mae CTMUHB yn datblygu gwaith teg trwy weithgareddau sy'n ymwneud â'r cyflog byw ac arferion a pholisïau'r Bwrdd Iechyd, e.e. cynlluniau'r gweithlu a datblygu; grŵp llywio sefydliad angori; prentisiaethau a strategaeth llesiant staff.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDUHB) yn gweithio tuag at fod yn gyflogwr achrededig y cyflog byw gwirioneddol. Mae HDUHB yn datblygu gwaith teg trwy ei bolisi ac arferion recriwtio; gwaith ar werth cymdeithasol; prosesau

sefydlu staff a'i gynllun iechyd a llesiant staff. Mae gan y tîm gysylltiadau cryf â'i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyfle i weithio gyda nhw wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau. Amlygwyd y gallai ffrydiau cyllido gyflawni rôl ddylanwadol, e.e. cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cydnabu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lwyddiant yr Academi Iechyd a Gofal yn ei rôl i gynyddu mynediad at addysg, hyfforddiant a datblygiad ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tîm wedi bod yn ymwneud ag ymgyrchoedd recriwtio yn yr ardal ac mae'n ymwybodol o waith sy'n mynd rhagddo i gynyddu mynediad digidol at ddysgu a chynnydd.

Mae tîm Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB) yn datblygu ei strategaeth iechyd y boblogaeth (Rhanbarth Marmot) ac yn ystyried bod hyn yn sbardunwr allweddol i godi ei broffil ef a phroffil gwaith teg. Rhoddwyd enghreifftiau o arfer da yn lleol, fel prosiectau Cyngor ar Bopeth a gwaith Coleg Castell-nedd Port Talbot ar fynediad a chynhwysiant. Mae cynnydd yn cael ei wneud o fewn SBUHB, e.e. prentisiaethau, caffael. Amlygwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y rhanbarth, yn ogystal â chysylltiadau â'r Timau Rhanbarthau Economaidd, fel cyfle i godi proffil gwaith teg yn y dyfodol.

Beth yw'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu asiantaethau lleol a rhanbarthol?

Myfyriodd y rhan fwyaf o dimau fod tuedd i ddatblygu a chynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg o ran y sector cyhoeddus, gyda llai o ymdrech a phwyslais ar y sector preifat, ac roedd rhai'n teimlo y dylid treulio mwy o amser yn ymgysylltu â'r sector preifat. Roedd rhai o'r farn y gallai anghydraddoldebau gynyddu'n anfwriadol trwy ganolbwyntio ar y sector cyhoeddus. Roedd rhai timau'n credu ei bod yn anodd ymgysylltu â'r sector preifat oherwydd fe allai fod yn anodd darbwyllo rhai partneriaid a dylanwadwyr allweddol o werth y syniad o waith teg pan fo pwyslais mor gryf ar dwf a datblygu economaidd. Yn ogystal, trafodwyd yr ansicrwydd ynglŷn â beth yw'r budd mwyaf yn y system, ac y bydd dylanwadwyr y system yn wahanol mewn systemau gwahanol.

Myfyriodd rhai timau fod y cyd-destun presennol a'r pwysau ar wasanaethau sy'n wynebu Byrddau Iechyd yn golygu ei bod yn anodd datblygu camau gweithredu yn ymwneud â gwaith teg, gan gyfeirio at faterion fel effaith y dirwasgiad; recriwtio a chadw; gweithredu diwydiannol parhaus; gweithlu sy'n heneiddio; yr angen i ddatblygu sgiliau'n barhaus. Nodwyd hefyd y gallai fod tensiwn rhwng agwedd hyblygrwydd y nodwedd gwaith teg a'r angen i ddarparu gwasanaeth 24 awr.

Ystyriwyd bod strwythurau cyllido'n ei gwneud yn anodd gweithredu gwaith teg, e.e. natur cylchoedd cyllido, defnyddio contractau cyfnod penodol a staff banc yn

y Bwrdd Iechyd. Roedd un rhanbarth o'r farn bod rhywfaint o ddatgysylltiad rhwng y BGC a chyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r lefel economaidd ranbarthol.

Trafodwyd heriau yn ymwneud â chynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg mewn sectorau penodol, e.e. dyfarniadau cyflog gwahanol ar draws y sector gofal cymdeithasol a gofal plant ac amodau gwaith mewn perthynas â'r sector amaethyddol. Mae natur swyddi ansicr a'r nifer gynyddol o bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith yn golygu ei bod yn anodd cynyddu gwaith teg.

Beth sy'n cael ei fesur ar hyn o bryd mewn perthynas â gwaith teg?

Yn ABUHB, mae'r tîm yn gweithio gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd i ddatblygu 13 o ddangosyddion i ymdrin ag 8 egwyddor rhanbarth Marmot. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i bennu'n derfynol pa 2 ddangosydd a ddefnyddir ar gyfer gwaith addas, sy'n debygol o fod yn gyfraddau cyflogaeth a nifer y cyflogeion sy'n derbyn y cyflog byw gwirioneddol.

Nid yw'r ffordd y mae'r holl fyrddau iechyd eraill yn mesur a gwerthuso gwaith teg wedi'i chyfleu'n glir mewn 'cynllun gwaith teg' penodol fel y cyfryw, ond mae elfennau'n cael eu cyfleu mewn rhai ffrydiau gwaith, e.e. prentisiaethau; grwpiau llywio'r cyflog byw; gweithgarwch recriwtio a chadw ac arolygon staff. Mae rhaglen Rheoli Iechyd y Boblogaeth CTMUHB yn edrych ar ddata gofal sylfaenol ac eilaidd ac yn archwilio'r posibilrwydd o gyrchu data economaidd, e.e. data'r Adran Gwaith a Phensiynau, a fydd yn rhoi mwy o ddealltwriaeth o anghenion ei gymunedau.

Cysylltir â thimau iechyd cyhoeddus lleol yn aml ar gyfer data, a ddefnyddir i 'fachu' partneriaid a rhanddeiliaid. Cydnabu timau fod rhywfaint o ddata gwaith teg ar gael ac yn cael ei gasglu yn rhan o'r set ddata Dangosyddion Cenedlaethol. Cydnabuont fod diffyg data lleol am waith teg a bod llawer o'r dangosyddion data'n fesurau procsi. Mae angen gwneud mwy o waith i ddeall sut i ddefnyddio'r data i helpu i fonitro'r nodweddion gwaith teg.

Pa gymorth sy'n ofynnol yn y dyfodol a ble allwn ychwanegu gwerth orau?

At ei gilydd, roedd timau iechyd cyhoeddus lleol yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu a thrafod y gwaith a hoffent gynnal cysylltiad â'r WDoHU i gael cymorth pellach wrth iddynt symud ymlaen. Teimlwyd bod hyn yn gyfle i gydgysylltu ymdrechion cenedlaethol a lleol ar waith teg, er enghraifft sicrhau bod

cyfleoedd yn cael eu mwyhau a'u bod yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid a'r partneriaid iawn ar draws y system.

Byddai rhai'n gwerthfawrogi mwy o gymorth a gwaith wedi'i deilwra ar ffurf gweithdai gyda'r BGC a thimau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn y Byrddau Iechyd. Byddai'r rhan fwyaf hefyd yn croesawu datblygu fframweithiau eraill i helpu i gymhwyso gwaith yn ymarferol yn y maes hwn, er enghraifft o ran sefydliadau angori, yr economi sylfaenol a chaffael.

Roedd y rhan fwyaf o'r timau hefyd yn o'r farn y byddai gwaith a datblygiad pellach yn ymwneud â data, monitro a gwerthuso gwaith teg yn fuddiol, yn ogystal â deall sut gall data gefnogi cysyniadau gwaith teg.

4. Trafodaeth

Roedd gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid blaenoriaethol yn cynnwys gweithdai, cyflwyniadau, cyfarfodydd a thrafodaethau un i un. Rhoddodd pob gweithgaredd ymgysylltu gyfle i ysgogi'r rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r agenda gwaith teg a chynyddu ymwybyddiaeth, gan wella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- y diffiniad o waith teg a'i nodweddion.
- perthynas gwaith teg ag iechyd, llesiant, tegwch a chynhyrchedd.
- argymhellion Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg i gefnogi iechyd, llesiant a thegwch.

Datblygwyd perthnasoedd â 10 o'r 12 o randdeiliaid blaenoriaethol a amlygwyd a chyda rhanddeiliaid ychwanegol fel Cynnal Cymru a Busnes Cymru. Yn ystod y cam ymgysylltu, roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi ymagwedd Iechyd Cyhoeddus Cymru hyd yma ac o'r farn bod ei weithgareddau a'i adnoddau panel arbenigol yn ategu eu gwaith. Roedd y rhanddeiliaid yn ymgysylltiedig yn gyffredinol ac roedd y rhan fwyaf yn fodlon bod yn rhan o drafodaethau a gweithgareddau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol i sicrhau cysondeb ar draws y system ac osgoi dyblygu ymdrechion.

4.1 Effaith a chyrhaeddiad Canllaw gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch Iechyd Cyhoeddus Cymru

Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod y canllaw'n adnodd defnyddiol ac roeddent yn gallu defnyddio gwybodaeth i gefnogi'r broses o ddatblygu polisïau, cynlluniau a chanllawiau, e.e. cynlluniau BGC, Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus ABUHB ac adborth anffurfiol gan Lywodraeth Cymru y gallai

ymddangos yn eu dogfennau canllaw ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Chapter 5: Create fair employment and good work for all

Why is this important?

Being in (good, fair) employment is protective of health. Conversely, unemployment contributes to poor health. Getting people into work is the first step to reducing inequity, but jobs also need to provide fair employment and good work that promotes well-being.

The Marmot Review proposes a minimum level of quality for jobs to provide good, fair work. Jobs should not only be sustainable and provide a decent living wage, but also opportunities for in-work development, the flexibility to enable people to balance work and family life, and protection from adverse working conditions that can damage health[1].

The Health Equity Status Report Initiative identifies five essential conditions for health equity[2]. Employment and working conditions is one of these, associated with 7% of the difference in self-reported health.

For children, the income and work of their parents is a pivotal factor in the length of time spent in child poverty and the ability to exit poverty[3].

There are many different definitions of good, fair or decent work, whether developed by governments, academics or workers' organisations. The Fair Work Commission in Wales considered the many alternatives and identified the following characteristics of fair work[4]:

Figure 15: What is fair work?

Source: Public Health Wales[4]

What can organisations in Gwent do?

Public Health Wales (PHW) has recently published a guide to fair work for local and regional organisations in Wales[5]. This guide was informed by the work and recommendations of the Participation in Fair Work for Health, Well-being and Equity Expert Panel. The resulting framework for action is illustrated below.

22 Building a Fairer Gwent: Why Gwent is a Marmot region

Ffigur 4: Gwent Teg i Bawb: Pam mae Gwent yn rhanbarth Marmot

Roedd gweithgareddau cyfathrebu yn ystod y cam ymgysylltu'n cynnwys rhoi sesiynau briffio wedi'u teilwra i randdeiliaid blaenoriaethol, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Llywodraeth Cymru a Chymru Iach ar Waith yn chwarae rhan allweddol wrth ledaenu deunyddiau i'w rhwydweithiau, fel cydlynwyr BGC, cynghorwyr lleol a busnesau. Cynhaliwyd gweithgarwch cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol hefyd yn ystod yr wythnos Cyflog Byw Gwirioneddol i gynnal ymwybyddiaeth o'r deunyddiau, gan gyrraedd pobl ar Facebook, Twitter ac ar wefannau (er enghraifft Cymru Iach ar Waith, Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Nid oedd modd casglu data am sawl gwaith y lawrlwythwyd ein canllaw gwaith teg, ond casglwyd data am nifer yr ymweliadau â'r dudalen we. Roedd nifer yr ymweliadau ar eu huchaf pan lansiwyd y deunyddiau a chafwyd ymweliadau cyson wedi hynny. At ei gilydd, gwyliwyd yr animeiddiad nifer fawr o weithiau, ond gwyliwyd y fideos traethu i raddau llai.

4.2 Adolygu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Mae cynnal yr adolygiad bwrdd gwaith o Asesiadau Llesiant a Chynlluniau Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynyddu dealltwriaeth o ba ymyriadau polisi sydd eisoes yn digwydd ar lefel leol a rhanbarthol a dealltwriaeth o sut mae'r system yn gweithio yng Nghymru.

Mae'r adolygiad o'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn dangos bod ymrwymiadau a chamau gweithredu i wella a chynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg ar draws y pedair ardal trwy'r cyflog byw gwirioneddol; mynediad at swyddi cynaliadwy a'u creu (e.e. twristiaeth gynaliadwy yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru a phwyslais ar dwf mewn technoleg, arloesedd a diwydiannau datblygol fel deallusrwydd artiffisial a data yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Cymru; digideiddio a chysylltedd digidol; a datblygu seilwaith. Mae'n ymddangos bod y pedwar Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn defnyddio ymagwedd gyffredinol at fynd i'r afael â blaenoriaethau economaidd rhanbarthol, tra'u bod yn ystyried rhai, ond nid pob un, o'r nodweddion gwaith teg.

Canfu'r adolygiad o gynlluniau Cyflogadwyedd a Sgiliau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fod dau gynllun yn cyfeirio at waith teg o ran mynd i'r afael â bylchau sgiliau; denu cyflogeion i'r ardaloedd; hyrwyddo arferion gwaith teg a datblygu addewid ar gyfer gwaith a chyflog teg yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nid yw'r ddau gynllun arall yn cyfeirio at waith teg yn benodol, ond maen nhw'n canolbwyntio ar rai o nodweddion gwaith teg, fel cryfhau'r cynnig mewn addysg bellach, prentisiaethau, cymwysterau; cynorthwyo'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i gael gwaith a chamu ymlaen yn y gwaith; a galluogi a grymuso cyflogwyr ac unigolion o ran eu hanghenion sgiliau a datblygu. Mae'r cynlluniau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar nodweddion gwaith teg cyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen, tra bod rhai cynlluniau'n sôn am ymagwedd wedi'i thargedu at rai grwpiau o'r boblogaeth ac eraill yn sôn am ymagwedd ehangach wedi'i thargedu at y boblogaeth gyfan.

Un o amcanion allweddol y cam ymgysylltu oedd helpu BGCau i gydnabod pwysigrwydd gwaith teg i lesiant er mwyn llywio'r broses o ddatblygu eu cynlluniau. Yng y 19 nghynlluniau blaenorol BGCau (2017-2022), roedd un cynllun yn son am waith teg, chwech arall yn cyfeirio at elfennau o nodweddion gwaith teg ac nid oedd eraill yn cyfeirio ato o gwbl. O ran cynlluniau BGCau ar gyfer 2023-2028, mae mwy ohonynt yn cyfeirio at waith teg. O'r 13 o gynlluniau, mae tri yn

cyfeirio at waith teg yn benodol, mae wyth yn cynnwys elfennau o nodweddion gwaith teg yn eu hamcanion a dau nad yw'n cyfeirio ato o gwbl.

Er ei bod yn anodd priodoli'r cynnydd yn y cyfeiriadau at waith teg i fewnbwn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu WDoHU, mae'n debygol bod ein gweithgarwch hyd yma wedi cyfrannu at godi proffil gwaith teg ar lefel leol a rhanbarthol a dylanwadu ar gynnwys. Er enghraifft, mae dau gynllun wedi defnyddio darnau o destun o'r Canllaw Gwaith Teg. Gallai gwerthusiad dilynol ychwanegol ar ffurf arolwg, grŵp ffocws neu fapio effeithiau cynyddol gefnogi ein dealltwriaeth o brosesau BGC yn y dyfodol o ran pennu eu cynlluniau llesiant.

O ran y BGCau a oedd yn cyfeirio at rai o nodweddion gwaith teg, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â chyfle i gael mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen mewn gweithgareddau fel gwirfoddoli, hyfforddi, uwchsgilio, addysg a phrentisiaethau, a gwobrwyo teg trwy symud ymlaen â'r cyflog byw gwirioneddol mewn sectorau a nodwyd. Wrth i gynlluniau ddatblygu, byddai'n werthfawr i BGCau ystyried nodweddion eraill gwaith teg, gan gynnwys diogelwch a hyblygrwydd; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol; parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol; a llais y cyflogai. Mewn rhai ardaloedd BGC, roedd yr asesiadau llesiant wedi amlygu materion yn ymwneud â gwaith teg nad oeddent wedi ymddangos yn y cynlluniau llesiant wedi hynny (e.e. materion yn ymwneud â recriwtio a chadw mewn sectorau penodol yn gysylltiedig ag amodau gwaith neu niferoedd uchel o bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith).

Mae'r adolygiad bwrdd gwaith a gwybodaeth gan randdeiliaid wedi ein galluogi i amlygu bylchau a phennu ble y gall WDoHU barhau i ychwanegu gwerth. Amlygodd yn arbennig bwysigrwydd dylanwadu ar ysgogwyr allweddol yn y systemau ar adegau penodol mewn cylchoedd polisi a chynllunio. Wrth i BGCau gyhoeddi eu cynlluniau llesiant ym mis Mai 2023, mae cyfnod byr arall lle y ceir cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad manwl eu cynlluniau y gall asiantaethau lleol a rhanbarthol chwarae rhan allweddol ynddo.

Dylai pwyntiau ysgogi allweddol tymor hwy yng nghylchoedd cynllunio BGCau a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gael eu nodi gyda gweithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu â ffocws penodol yn ystod y cyfnodau hyn. Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sydd i ddod hefyd yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar gyrff sector cyhoeddus yn eu dyletswyddau partneriaethau cymdeithasol a chaffael o yn gysylltiedig â gwaith teg.

4.3 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

Cydnabu rhanddeiliaid, o dan bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, fod y cyd-destun a'r gweithgarwch i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg yn fwy

cyflawnadwy a chefnogol o fewn y sector cyhoeddus. Cydnabu timau Iechyd Cyhoeddus lleol y cyfleoedd i ddylanwadu ar gylchoedd cynllunio strategol o fewn eu Byrddau Iechyd. Roedd pwyntiau ysgogi cyffredin eraill ar gyfer asiantaethau lleol a rhanbarthol yn cynnwys gweithgarwch yn ymwneud â'r cyflog byw gwirioneddol, mynediad at hyfforddiant, addysg a phrentisiaethau, a phrosesau caffael. Mae cyfle i ychwanegu at adnoddau gwaith teg Iechyd Cyhoeddus Cymru a darparu argymhellion wedi'u seilio ar dystiolaeth, fframweithiau i helpu i gymhwyso gwaith yn ymarferol yn y rôl sector cyhoeddus, yn enwedig yn y rôl gydnabyddedig fel Sefydliad Angori a'r pwyntiau ysgogi hyn.

Fodd bynnag, dylid nodi bod rhanddeiliaid o'r farn y dylai mwy o waith ymgysylltu a dylanwadu gael ei wneud o fewn y sector preifat. Wrth i Gymru Iach ar Waith fwrw ymlaen i ddatblygu ei fodel cyflawni newydd, bydd ymgorffori ymagwedd gwaith teg wrth ddatblygu ei adnoddau yn cryfhau cyfranogiad yn y sector cyhoeddus a phreifat. Gallai ymgysylltu penodol ychwanegol â rhanddeiliaid fel Busnes yn y Gymuned a'r Ffederasiwn Busnesau Bach godi proffil gwaith teg ymhellach ac arwain at gyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol. Mae trafodaeth â Busnes yn y Gymuned yn dangos bod awydd i gydweithio o ran gwella'r data sydd gennym am waith teg ac adnoddau ychwanegol wedi'u bwriadu ar gyfer busnesau.

Roedd yr holl randdeiliaid yn teimlo'n gyffredinol bod diffyg casglu data a monitro gwaith teg yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion a'r data sydd ar gael naill ai'n fesurau procsi neu'n ffigurau cenedlaethol. Gallai adnoddau ychwanegol gael eu datblygu i helpu i ddeall sut gall data gefnogi'r broses o fonitro a gwerthuso gweithgarwch yn ymwneud â nodweddion gwaith teg a sut gellid mesur cynnydd.

4.4 Edrych o Safbwynt Gwyddor Ymddygiadol

Ar y cyd ag Uned Gwyddor Ymddygiadol Iechyd Cyhoeddus Cymru, defnyddiodd WDoHU fframwaith newid ymddygiad wedi'i seilio ar dystiolaeth, sef y Model Ymddygiad Gallu Cyfle Cymhelliad (COM B), i gael dealltwriaeth well o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfranogiad mewn gwaith teg ar draws y system yng Nghymru. Mae'r model COM B[10] yn darparu fframwaith ar gyfer archwilio penderfynyddion ymddygiadau ac fe'i cymhwyswyd i ystod o ymddygiadau proffesiynol[11,12]. Mae'r model yn cynnig bod rhaid i dri amod gael eu bodloni er mwyn i unrhyw ymddygiad ddigwydd ar unrhyw adeg benodol, sef y gallu i gyflawni'r ymddygiad, y cyfle i'w gyflawni a'r cymhelliad. Trwy fapio'r wybodaeth a gafwyd yn ystod y cam ymgysylltu ac ymchwil ansoddol i'r COM B, gellir amlygu'r strategaethau mwyaf priodol i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau[13].

Trwy ddefnyddio'r ymagwedd hon, y cyfeirir ati fel diagnosis ymddygiadol, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r rhwystrau a'r hwyluswyr yn ymwneud â'r elfen o'r

model COM-B sy'n ymwneud â chyfle. Gyda chyfleoedd yn ymwneud â rhwystrau fel cyllid, strwythurau cyflog, adnoddau a materion cadw a hwyluswyr fel cyfle i ymgorffori mewn cynlluniau a phrosesau a symud ymlaen â'r cyflog byw gwirioneddol. O ran gallu, roedd rhwystrau yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth o waith teg, ac o ran cymhelliad roedd rhai'n teimlo bod y syniad o werthu gwaith teg yn dasg anodd yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Yn ôl yr Olwyn Newid Ymddygiad, sef fframwaith wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n arwain y broses o ddatblygu ymyriadau yn seiliedig ar ganfyddiadau diagnosis ymddygiadol, gellir mynd i'r afael â'r dylanwadau ar gyfranogi mewn gwaith teg sy'n ymwneud â gallu a chymhelliad trwy ymyriadau sy'n canolbwyntio ar addysg, gydag opsiynau polisi fel cyfathrebu a marchnata[10]. Amlygodd y dadansoddiad hwn fod angen gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â gwaith teg ar yr un pryd ag amlygu ffactorau cyfle sy'n gofyn am ymateb cyfunol gan y system ehangach.

5. Casgliad

Mae ein hymgysylltiad â phartneriaid cenedlaethol, lleol a rhanbarthol wedi bod yn llwybr i ddylanwadu ar gamau gweithredu i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg. Mae hyn yn arbennig o wir am gynlluniau llesiant BGC, trwy ymgysylltu â thimau iechyd cyhoeddus lleol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar wahân, Cydlynwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd wedi sefydlu perthnasoedd â phartneriaid, yn enwedig mewn timau iechyd cyhoeddus lleol, a hwyluso myfyrio ar gyfleoedd a rhwystrau yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae adnoddau a chapasiti cyfyngedig WDoHU a phwysau sy'n cystadlu yn golygu na archwiliwyd pob maes o ran cyfleoedd yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'r sector preifat (ni ymgysylltwyd â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach).

Yn ystod y cam ymgysylltu, ystyriwyd yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn ffynhonnell gwybodaeth ac fe all barhau i ychwanegu gwerth trwy ddatblygu mewnbwn arbenigol wrth i bartneriaid lleol a rhanbarthol fwrw ymlaen â gwaith. Ystyriwyd bod hyn yn werth ychwanegol ac yn ategu gwaith Cymru Iach ar Waith gyda chyflogwyr.

Mae cyfleoedd i ddylanwadu ar gyfranogiad mewn gwaith teg yn cynnwys hysbysu cylchoedd cynllunio (BGCau, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, cynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol); darparu gwybodaeth penodol i sector; cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus â'u rôl mewn perthynas â sefydliadau angori, y cyflog byw, caffael neu brentisiaethau; llwybrau i

ddylanwadu ar y sector preifat, gan gynnwys busnes a menter awdurdodau lleol, bargeinion dinesig a rhanbarthol a gwaith Cymru Iach ar Waith.

Dangosodd ymgysylltu â rhanddeiliaid fod dealltwriaeth o'r syniad o waith teg a sut i fynd i'r afael ag ef yn amrywiol o hyd, sy'n awgrymu bod angen gallu a chymhelliad ategol. Fe allai hyn fod trwy ddatblygu fframweithiau, canllawiau, adnoddau a deunyddiau cyfathrebu penodol.

Mae llawer o asiantaethau lleol a rhanbarthol yn canolbwyntio'n arbennig ar nodweddion gwaith teg mynediad at waith, tyfu a chamu ymlaen, ac mae BGCau yn ystyried bod hyn yn weithgarwch allweddol, ynghyd â symud ymlaen â'r cyflog byw gwirioneddol. Fe allai fod yn werth edrych ar y meysydd hyn o safbwynt iechyd y boblogaeth.

Fodd bynnag, amlygodd y bobl yr ymgysylltom â nhw rwystrau clir rhag gwneud cynnydd ar waith teg, gan gynnwys strwythurau gwobrwyo sydd y tu hwnt i reolaeth y partïon sy'n gysylltiedig, cyllid a phwysau sector cyhoeddus, gweithlu sy'n heneiddio a diffyg ysgogwyr i ddylanwadu ar y sector preifat lle mae angen cymryd llawer o'r camau gweithredu ar waith teg.

Dylai ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid ynglŷn â gwaith teg ganolbwyntio ar bwyntiau ysgogi a amlygwyd er mwyn cynyddu ymdrechion i'r eithaf i greu amodau i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg. Dylid canolbwyntio ar gyfleoedd allweddol yn ymwneud â datblygu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a datblygu cynlluniau a gweithgareddau BGCau ymhellach hefyd.

Roedd data i fonitro a deall cyfranogiad mewn gwaith teg a'r effaith ar hyn yn amlwg yn brin i lawer o bartneriaid. Mae cyfle i archwilio ymhellach ddealltwriaeth o sut gall data gefnogi cysyniadau gwaith teg a sut gellid mesur cynnydd, gydag arweiniad pellach ar gasglu data a gwerthuso a monitro nodweddion gwaith teg ynghyd â mwy o ymchwil ynglŷn â graddau gwaith teg yng Nghymru.

Atodiadau

Atodiad 1 Data gwerthuso cam ymgysylltu Gwaith Teg

Gweithgarwch	Beth	Mesur	Data
Gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu (ar-lein)	Cyrraedd rhanddeiliaid blaenoriaethol a rhanddeiliaid ehangach Hyrwyddo argymhellion gwaith teg a hyrwyddo cynhyrchion yr Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd	Faint o weithiau yr edrychwyd ar adnoddau Gwaith Teg ar y dudalen we Faint o weithiau yr edrychwyd ar yr animeiddiadau a'r 'fideos traethu' ar YouTube Nifer y bobl a gofrestrodd ar gyfer gweminar / gweithdai Nifer y cyflwyniadau a maint y gynulleidfa	1780 o ymweliadau â'r dudalen we Gwaith Teg (yn gywir ar 31/5/23) 261 o olygon o'r animeiddiad ar YouTube (yn gywir ar 31/5/23) 57 o bobl wedi mynychu gweminar Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 15/6/23 a 125 o olygon ohoni ar YouTube (yn gywir ar 31/5/23) Deunyddiau wedi'u dosbarthu i oddeutu 200 o randdeiliaid a dargedwyd ar yr adeg lansio (mis Mai 2022) Arweiniodd gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol ar ôl cyhoeddi'r cynhyrchion gwaith teg at 18,000 o argraffiadau1 (facebook); 9,800 o argraffiadau a chyfradd ymgysylltu o 5.4% (twitter) a 2,100 o olygon ar LinkedIn (rhwng 1/3/22 a 30/6/22) Ymweliadau â thudalen y datganiad i'r wasg ynglŷn â'r cyflog byw (cyhoeddwyd 14/11/22) https://phw.nhs.wales/news/real-living-wage-critical-for-health/ 734 o olygon (yn gywir ar 31/5/23)
Gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, e.e. cyfarfodydd, gweithdai, cyflwyniadau	Cyrraedd rhanddeiliaid blaenoriaethol a rhanddeiliaid ehangach	Nifer y cyflwyniadau a maint y gynulleidfa	Cyflwyniad a gweithdai yn cynnwys – tîm Cymru Iach ar Waith; tîm iechyd cyhoeddus lleol x 7; cydlynwyr BGCau (rhan o weithdy anghydraddoldebau iechyd); Creu Cymru Iachach. Cyfanswm y gynulleidfa yn fras – 100 Cyfarfodydd rhanddeiliaid ag unigolion o grwpiau targed (e.e. Llywodraeth Cymru, CLlLC, tîm Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cwm Taf, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, TUC)
Data ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer gwybodaeth	Ymwybyddiaeth o waith teg / nodweddion a'r berthynas â chynhyrchedd ac iechyd a llesiant Agweddau tuag at gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg	Nifer y darnau o wybodaeth a gasglwyd gan grwpiau rhanddeiliaid blaenoriaethol Deunydd a gwybodaeth rhanddeiliaid a rannwyd â'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd	10/12 o ddarnau o wybodaeth wedi'u casglu gan randdeiliaid blaenoriaethol

[1] Ystyr argraff yw pan fydd y postiad yn ymddangos ar linell amser rhywun, nid yw o reidrwydd wedi rhyngweithio â'r postiad.

Y gyfradd ymgysylltu gyfartalog ar draws yr holl bostiadau ar y ddau blatfform yw 0.7%, ystyrir bod 1% yn dda. Po uchaf y cyfrif dilynwyr (mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddegau ar filoedd), anoddaf ydyw i gyrraedd y cyfraddau ymgysylltu uwch.

		Data ansoddol o weithgareddau ymgysylltu	
Ymddygiadau rhanddeiliaid blaenoriaethol	Gwaith teg wedi'i grybwyll yn benodol mewn polisïau a chynlluniau	Nifer y cynlluniau BGC sy'n cyfeirio at waith teg	13 cynllun BGC ar gyfer 2023-2025 y mae 3 ohonynt yn cyfeirio'n benodol at waith teg, mae gan 8 elfen o waith teg ac mae gan 2 ddim. (O ran cynlluniau llesiant blaenorol, roedd 1 yn cyfeirio'n benodol at waith teg, roedd gan 4 elfennau o waith teg ac nid oedd unrhyw rai mewn eraill)

Cyfeiriadau

1 **Gray B et al**. *Precarious employment and associations with health during COVID-19: a nationally representative survey in Wales, UK*. medRxiv. Mehefin 7:2022-06. 2022

2 **Humphreys, C., Heathcote-Elliott, C. a Winding, C**. *Cyflawni gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch – beth yw gwaith teg, pam mae'n bwysig a beth allwch chi ei wneud. Canllaw i sefydliadau lleol a rhanbarthol yng Nghymru*. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2022

3 **Comisiwn Gwaith Teg Cymru**. *Adroddiad Comisiwn Gwaith Teg Cymru*. Caerdydd, y Deyrnas Unedig. 2019

4 **Llywodraeth Cymru**. *Adroddiad Blynyddol 2022*. Caerdydd, y Deyrnas Unedig. [Ar-lein] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2022.pdf [Cyrchwyd 22 Mai 2023]. 2022

5 **Llywodraeth Cymru** *Welsh Government Stronger Fairer Greener Wales Plan Employability and Skills*. Caerdydd [Ar-lein] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/9/5/1663342746/cymru-gryfach-decach-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-sgiliau-crynodeb.pdf [Cyrchwyd 22 Mai 2023]. 2022

6 **Ymchwil Senedd Cymru**. *Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Crynodeb o'r Bil*. Caerdydd [Ar-lein] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/gwaith-teg-a-gwell-gwasanaethau-cyhoeddus-y-bil-partneriaeth-gymdeithasol-a-chaffael-cyhoeddus/. [Cyrchwyd 22 Mai 2023]. 2022

7 **Ymchwil Senedd Cymru** *Gwaith teg a gwell gwasanaethau cyhoeddus? Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus* [Ar-lein] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/gwaith-teg-a-gwell-gwasanaethau-cyhoeddus-y-bil-partneriaeth-gymdeithasol-a-chaffael-cyhoeddus/ [Cyrchwyd 22 Mai 2023]. 2022

8 **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**. *Llesiant yng Nghymru: Trosolwg o'r hyn a ddarganfuom wrth ymateb i asesiadau drafft Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o lesiant*. Caerdydd (2022) [Ar-lein] https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/llesiant-yng-nghymru-yr-hyn-a-ddarganfyddais-wrth-ymateb-i-asesiadau-drafft-byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus-o-lesiant-yn-2022/ [Cyrchwyd 11 Mehefin 2023]. 2023

9 **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus** *Gwent Teg i Bawb: Pam fod Gwent yn rhanbarth Marmot* [Ar-lein] https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/building-a-healthier-gwent/gwent-teg-i-bawb-adroddiad-blynyddol-cyfarwyddwr-iechyd-cyhoeddus-2022pdf/ [Cyrchwyd 22 Mai 2023]. 2022

10 **Michie, S., van Stralen, M. M., a West, R**. The behaviour change wheel: a new method for characterizing and designing behaviour change interventions. *Implementation Science*, 6(1), 42. https://doi.org/10.1186/1748-5908-6-42. 2011

11 **Bull, E. R., Hart, J. K., Swift, J., Baxter, K., McLauchlan, N., Joseph, S., a Byrne-Davis, L. M. T.** An organizational participatory research study of the feasibility of the behaviour change wheel to support clinical teams implementing new models of care. *BMC Health Serv Res*, 19(1), 97. https://doi.org/10.1186/s12913-019-3885-8. 2019

12 **Atkins, L., Kelly, M. P., Littleford, C., Leng, G., a Michie, S**. Reversing the pipeline? Implementing public health evidence-based guidance in English local government. *Implementation Science*, 12(1), 63. https://doi.org/10.1186/s13012-017-0589-5. 2017

13 **Michie, S., Atkins, L., a West, R**. *The behaviour change wheel: a guide to designing interventions.* Prydain Fawr: Silverback Publishing. 2014